National Literacy Trust
Change your story

In partnership with

Gwnaed yn bosibl gan | Made possible with
Cronfa Treftadaeth
Heritage Fund

# Gorymdeithio Trwy Amser

Ymunwch â Sabrin, Grancha Terry ac Elizabeth ar Gyrch Stori trwy Gasnewydd!



1 / 4 Cwest Stori Hanes y Siartwyr – Cwblhewch bob un!

# Annwyl Gyrchwyr Stori,

**Helô a chroeso!**

Dyma un o nifer o Gyrchoedd Stori sydd ar gael ledled De-ddwyrain Cymru, wedi'u hysgrifennu'n arbennig ar eich cyfer CHI. Mae pob antur yn cyflwyno cymeriadau newydd sy'n archwilio hanes, natur ac adeiladau gwych eu hardal leol – a heddiw, rydym yn mynd i galon canol dinas Casnewydd.

Wrth i chi ddilyn ôl troed ein cymeriadau, ni fyddwch chi'n darllen y stori yn unig ... byddwch chi'n camu i mewn iddi. Bydd posau i'w datrys, cerfluniau i'w hastudio, llythyrau i'w hysgrifennu, darnau arian i'w dylunio, a syniadau pwerus i'w harchwilio.

Mae'r antur heddiw'n datgelu storïau sy'n cuddio mewn cerrig a brics – storïau am bobl gyffredin a helpodd i newid y byd.

A chofiwch, fel y byddai Elizabeth yn ei ddweud, efallai:



"Pan fydd lleisiau'n uno a chalonnau'n gytûn, Gall camau bach lunio hanes ei hun."

Wedi i chi gwblhau'r Cyrch Stori hwn, mae rhagor yn aros amdanoch chi. A allwch chi gwblhau pob un?

**Mae'r Cyrch Stori hwn yn digwydd o amgylch:** canol dinas Casnewydd, De-ddwyrain Cymru

**Man Cychwyn:** Cerflun 'Unity, Prudence and Energy', Sgwâr Westgate, Stryd Fasnachol, Casnewydd, NP20 1JN

**Hyd:** Tua 60–90 munud

**Lefel Gweithgarwch:** Mynd am dro yng nghanol y ddinas gyda digon o arosfannau. Mae un set o risiau, ond mae lifft ar gael.

## Byddwch chi angen:

- Pensil, pen, neu ap nodiadau ar ffôn
- Rhywbeth cadarn i bwyso arno (byddai clipfwrdd neu lyfr nodiadau yn gweithio'n dda)
- Eich dychymyg
- Archwiliwr sy'n oedolyn (argymhellir hyn!)
- Dewisol: pensiliau lliw ar gyfer braslunio a dylunio darnau arian – neu gallwch chi eu lliwio gartref!


### Diolchiadau

Hoffai tîm Lleisiau ar gyfer y Dyfodol ddiolch i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, Patrick Jones, Andy O'Rourke, Eden Gate, Hyb Gwrthryfel Casnewydd a'r Siartwyr: Ein Treftadaeth, Amgueddfa Casnewydd, Trosol a chymuned Casnewydd am ein helpu i gyflawni'r prosiect hwn.



Mae'r Ymddiriedolaeth Lythrennedd Genedlaethol yn elusen gofrestredig rhif 1116260 a chwmni cyfyngedig drwy warant rhif 5836486 wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig rhif SC042944 yn yr Alban.



CLARENCE PLACE
QUEENSWAY
HIGH STREET
MARKET
SKINNER STREET
KINGSWAY
UPPER DOCK STREET
FRIARS WALK
FOOTBRIDGE
BRIDGE STREET
1
2
3
4
JOHN FROST SQUARE
COMMERCIAL STREET
CHARLES STREET
STOW HILL
HILL STREET
KINGSWAY SHOPPING CENTRE
ST WOOLOS
STOW HILL

# Cwrdd â'ch Tywyswyr



**Sabrin (11 mlwydd oed)**

Mae wrth ei bodd yn chwarae gemau gyda'i ffrindiau ac yn gofalu am ei mochyn cwta, Milo.

**Grancha Terry, tad-cu Sabrin:**

Mae wedi byw yng Nghasnewydd drwy gydol ei oes ac yn gwybod storïau sy'n cuddio ym mhob stryd.

**Elizabeth**

Merch a oedd yn byw yng Nghasnewydd … bron i 200 mlynedd yn ôl. Heddiw, mae hi'n barod i adrodd ei hanes.

Mae Grancha Terry yn stopio o flaen cerflun 'Unity, Prudence and Energy'.

"Dyma ni," meddai.

Mae Sabrin yn ochneidio. "Y'n ni'n stopio yma? Dim ond cerflun yw hwn."

"Mae'n llawer mwy na cherflun. Saf yn ôl a gwylia hanes yn dod yn fyw!" Mae'n wincio ac yn wiglo ei fysedd.



## DROSODD ATOCH CHI

### SWYNION HUD

Ysgrifennwch gymaint o eiriau hud ag y gallwch feddwl amdanynt, i helpu Grancha Terry i ddod â hanes yn fyw:

Mae rhubanau arian y cerflun yn troelli i fyny. Ar y brig, mae tri gair pwerus yn crymu drwy'r awyr:

Undod. Callineb. Egni.

Ac yna … mae un o'r plant yn y cerflun yn wiglo ei bysedd.

"O! Dyna well!" meddai'n llawen. "Mae'n anodd aros yn llonydd am gyhyd."

"Elizabeth ydw i," mae hi'n gwenu.



"Helô Elizabeth, Terry ydw i, a dyma Sabrin. Dywedwch wrthym am Gasnewydd pan oeddech chi'n tyfu i fyny."

Mae Elizabeth yn esbonio nad oedd bywyd yn deg yn y 1830au. Dim ond ychydig o ddynion cyfoethog oedd yn gallu pleidleisio. Nid oedd gan weithwyr unrhyw lais.

"Felly," dywedodd Elizabeth yn falch, "aethom ati i orymdeithio gyda'n gilydd."

Mae Grancha Terry yn nodio. "Siartiaeth oedd enw'r mudiad hwnnw. Pobl gyffredin yn gofyn am reolau tecach."

Mae Elizabeth yn gwasgu llaw Sabrin.

"Mae Undod yn golygu sefyll yn dynn gyda'n gilydd. Mae Callineb yn golygu meddwl yn ofalus. Mae Egni yn golygu peidio byth â rhoi'r gorau iddi."

“Ar 4 Tachwedd 1839, cerddais gyda fy nhad o’n cartref, drwy Gasnewydd, i Westy’r Westgate!” mae’n esbonio.



“Dangosaf i chi ... dilynwch fi!”

## FFEIL FFEITHIAU

Roedd y Siartwyr yn weithwyr cyffredin: glowyr, gweithwyr haearn, llafurwyr a manwerthwyr a oedd yn credu bod system wleidyddol Prydain yn annheg.

## DROSODD ATOCH CHI

### EDRYCH FEL CERFLUN

Cofiwch dri esboniad Elisabeth am undod, callineb ac egni. A ydych chi'n gallu gosod eich hunain yn agos at eich gilydd, yn wynebu'r un cyfeiriad ac yn edrych yn benderfynol?

Sut mae'n teimlo i sefyll fel yna?

Pam ydych chi'n meddwl y gallai sefyll gyda'n gilydd helpu pobl i deimlo'n ddewr?

Pe bai un o'r cerfluniau yng Nghasnewydd yn dod yn fyw i chi, pa ffigwr hoffech chi fwyaf i siarad â nhw?

Beth fyddech chi'n ei ofyn iddyn nhw?

Beth fydden nhw'n gallu'i ddweud wrthych chi am Gasnewydd amser maith yn ôl?

## DITECTIF GEIRIAU

Defnyddiwch eiriadur (neu gofynnwch i oedolyn!) i ddiffinio:

Siartiaeth

Hawliau

Undod

Callineb

Egni

Meddai Grancha Terry:

"Mae'r geiriau hyn yn dal i fod yn bwysig heddiw. Rhannwch eich diffiniadau â rhywun a gofynnwch beth maen nhw'n ei olygu iddyn nhw heddiw, ac efallai y cewch chi rai atebion diddorol!"



Nawr, mae'n bryd dilyn ôl traed Elizabeth...

Ewch ar hyd y Stryd Fawr tuag at adeilad brics tal a fu, ar un adeg, yn dyst i un o'r nosweithiau mwyaf dramatig yn hanes Casnewydd. Os edrychwch chi i fyny, mae **WESTGATE HOTEL** wedi'i ysgrifennu ar y bwa uwchben y drws.



"Mae'n edrych yn gyffredin," meddai Sabrin.

Mae Elizabeth yn ysgwyd ei phen. "Mae ymhell o fod yn gyffredin. Ar y noson honno, 4 Tachwedd 1839, cyrhaeddodd miloedd o orymdeithwyr yma ar ôl cerdded trwy'r tywyllwch o'r cymoedd.

Roedden nhw eisiau tegwch. Roedden nhw eisiau i'w harweinwyr, a oedd wedi'u dal, gael eu rhyddhau. Roedden nhw eisiau llais."

## FFEIL FFEITHIAU

Un o brif arweinwyr De Cymru oedd cyn-faer Casnewydd, John Frost. Credai'n gryf fod angen i Brydain newid a chynnwys y bobl nad oeddent wedi'u geni i deuluoedd cyfoethog.

Ar 4 Tachwedd 1839, roedd John Frost a'i gyd-Siartwyr yn ddig oherwydd bod rhai o'r Siartwyr wedi'u harestio ac yn cael eu dal yng Ngwesty'r Westgate. Gwnaethon nhw orymdeithio trwy'r cymoedd i Gasnewydd, er mwyn eu hachub.

Mae Sabrin yn pwyntio at farciau bach yn y brics.

“Ai tyllau bwledi yw’r rhain?” mae’n gofyn.

“Na, dim ond crafiadau yw’r rheiny,” esbonia Grancha Terry. “Ond y tu mewn, mae pileri gyda thyllau bwledi go iawn o’r noson honno. Gallwch chi eu gweld, weithiau, pan mae’r drysau ar agor i’r cyhoedd.”

Nodiodd Elizabeth. “Roedd pobl wedi peryglu eu bywydau i gael eu clywed.”

Mae Sabrin yn cyffwrdd â’r wal yn ysgafn.

“Nid terfysgwyr oedden nhw,” meddai’n araf. “Y cyfan roedden nhw eisiau oedd tegwch.”

Mae Grancha Terry’n gwenu. “Yn union.”




## FFEIL FFEITHIAU

Pan gyrhaeddodd y gorymdeithwyr y gwesty, saethodd y milwyr y tu mewn atyn nhw. Lladdwyd o leiaf 22 o Siartwyr, ac anafwyd llawer mwy.

# DROSODD ATOCH CHI

## YSGRIFENNU LLYTHYR

Dychmygwch eich bod chi'n berson ifanc yng Nghasnewydd ym 1839, yn gwylio'r orymdaith.

Ysgrifennwch lythyr byr at y Siartwyr. Gallech gynnwys:

- Cwestiynau ynghylch pham maen nhw'n gorymdeithio
- Gair o gefnogaeth
- Yr hyn y byddech chi'n gofyn amdano pe baech chi'n un ohonyn nhw
- Sut byddech chi'n teimlo (yn gyffrous, yn nerfus, yn falch)
- Beth fyddech chi'n sylwi arno? Y sŵn? Y mwd? Y gweiddi?

## TYNNU LLUN

Brasluniwch sut roedd yr orymdaith yn edrych, yn eich tyb chi.

“Mae rhagor o hanes yn aros,” meddai Grancha Terry.

“Gadewch i ni fynd i’r amgueddfa, a dangosaf i chi!” Mae Elizabeth yn sgipio i ffwrdd.



## DROSODD ATOCH CHI




### TAITH GERDDED 5 MUNUD I’R ARHOSFAN NESAF

Ewch i fyny’r stryd, i’r cyfeiriad arall i’r cerflun, hyd nes i chi gyrraedd Banc Lloyds. Yma, trowch i’r chwith a cherddwch i lawr i Sgwâr John Frost. Mae Llyfrgell, Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd ar eich ochr dde – ewch i mewn ac i fyny i’r llawr cyntaf!

Mae Grancha Terry yn pwyntio at gas arddangos gyda dau ddarn o arian ynddo.

“Darnau arian y Siartwyr.”

Mae Elizabeth yn disgleirio’n ysgafn.

“Nid arian yn unig oedd darnau hyn,” mae’n esbonio. “Roedden nhw’n negeseuon bach cyfrinachol a allai basio o berson i berson. Pe bai rhywun wedi cael un fel newid, efallai y byddai wedi’u hysbrydoli. Efallai y bydden nhw wedi meddwl, ‘Dwi ddim ar fy mhen fy hun’.

Roedd rhai darnau arian wedi’u cerfio â geiriau fel GOBAITH.”

“Maen nhw fel negeseuon cyfrinachol i’r byd!” meddai Sabrin.




Mae Elizabeth a Terry ill dau’n nodio.

“Ie!” cytunodd Grancha Terry. “Ac roedd y negeseuon yn bwysig. Nid oedd y bobl a wnaeth y darnau arian hyn yn gyfoethog nac yn bwerus, ond roedden nhw’n glyfar. Roedden nhw eisiau i bawb wybod: rydym yn haeddu tegwch, cyfiawnder a llais.”

## DROSODD ATOCH CHI

### GWNEUD DARN ARIAN Â NEGES



"Gadewch i ni wneud ein darnau arian ein hunain! Meddyliwch am neges yr hoffech ei rhannu â'r byd. Gallai sôn am heddwch, neu garedigrwydd, neu hwyl. Cofiwch, gall hyd yn oed negeseuon bach ledaenu syniadau mawr. Ysgrifennwch eich neges y tu mewn i'r darn arian isod!"

### EDRYCH O AMGYLCH YR AMGUEDDFA



"Mae amgueddfeydd yn ffordd wych a hwyliog o ryngweithio â hanes. A oeddech chi'n gwybod nad oes rhaid i chi dalu i fynd i mewn i'r rhan fwyaf o amgueddfeydd, ac maen nhw'n berffaith ar gyfer diwrnodau glawog? Mae amgueddfa yn y rhan fwyaf o drefi – sawl un ydych chi wedi bod iddyn nhw?"

Cymerwch olwg o gwmpas gweddill Amgueddfa Casnewydd. Efallai yr hoffech chi weld gweddill arddangosfa gwrthryfel y Siartwyr ym 1839, cyn parhau â'ch antur!

Mae Elizabeth yn tynnu llawes Sabrin.

“Tyrd ymlaen, dwi eisiau dangos rhagor o negeseuon i ti, ond y tro hwn, maen nhw wedi’u cerfio mewn cerrig!”

## DROSODD ATOCH CHI

### TAITH GERDDED 2 MUNUD I’R ARHOSFAN NESAF

Ewch allan a throwch i’r dde. Cerddwch yn syth ymlaen hyd nes i chi gyrraedd y grisiau sy’n arwain i lawr i Usk Plaza. Ewch i lawr y grisiau’n ofalus, neu gallwch ddefnyddio’r lifft os oes angen.

Mae Elizabeth yn rhedeg at y grisiau cerrig mawr.

“Edrychwch!” mae’n galw. “Yr ysgrifen!”

Wedi’u cerfio yn y grisiau mae Chwe Phwynt Siarter y Bobl.

“Beth maen nhw’n ei olygu?” holodd Sabrin.

Mae Elizabeth yn clapio. “Mae pob gris yn cynrychioli un o’r addewidion y gofynnom amdanynt.” Mae’n pwyntio at y cerfiad rhifedig cyntaf.



“Un, rhoi’r bleidlais i bob dyn. Bryd hynny, dim ond dynion cyfoethog oedd yn gallu pleidleisio. Nid oedd unrhyw ddweud o gwbl gan weithwyr fel fy nhad.

Dau, y bleidlais. Mae hynny’n golygu pleidleisio’n breifat fel na allai neb eich bygwth neu ddweud wrthych sut i bleidleisio.

Tri, dim cymhwyster eiddo. Roeddem ni’n credu na ddylech chi orfod bod yn berchen ar dŷ neu dir i gael llais.

Pedwar, talu aelodau. Dylai Aelodau Seneddol, sef y bobl mewn awdurdod, gael eu talu, fel y gallai pobl gyffredin fod yn arweinwyr, nid dim ond pobl sydd eisoes yn gyfoethog.

Pump, etholaethau cyfartal. Mae hwnnw’n air anodd, ond mae’n golygu ardaloedd tecach ar gyfer pleidleisio. Roedd gan rai lleoedd filoedd o bobl, ac eraill, dim ond ychydig, ond roedd ganddynt yr un pŵer. Roeddem ni eisiau i bethau fod yn gyfartal.

A chwech, seneddau blynyddol. Roedd hyn yn golygu etholiadau blynyddol, fel y byddai’n rhaid i arweinwyr wrando ar y bobl neu gael eu disodli!”



## FFEIL FFEITHIAU

Ni lwyddodd y Siartwyr ar unwaith, ond ers 1839, mae pump o bwyntiau Siarter y Bobl wedi dod yn gyfraith! Er nad oes gennym etholiadau Seneddol blynyddol, cawn un tua phob pum mlynedd.

## DROSODD ATOCH CHI

### NEWID Y BYD

Gorffennwch y frawddeg hon: "Pe bawn i mewn awdurdod am un diwrnod, byddwn i'n…"

## DEG ADDEWID AR GYFER BYD TECACH

Roedd gan y Siartwyr chwe addewid.

A allwch chi ychwanegu pedwar arall er mwyn cael deg?

Gallent ymwneud â:

- Chael pobl i wrando arnoch chi
- Cadw'n ddiogel
- Gofalu am y blaned
- Tegwch yn yr ysgol
- Caredigrwydd
- Cael hwyl




"Yn aml, mae newidiadau mawr yn dechrau gyda lleisiau bach. Os gallwch chi ddychmygu byd tecach, rydych chi eisoes yn helpu i'w adeiladu."



Mae Sabrin yn oedi. “Mae’n dweud rhoi’r bleidlais i bob dyn … beth am fenywod?”

Mae gwên Elizabeth yn meddalu. “Roeddem ni’n gorymdeithio, hefyd. Ond mae newid yn dod mewn camau.”

“Agorodd y Siartwyr y drws. Yn ddiweddarach, bu eraill yn gorymdeithio dros roi’r bleidlais i fenywod hefyd,” esbonia Grancha Terry. Mae’n troi at Sabrin. “Pan fyddi di’n 16 oed, cei bleidleisio yng Nghymru.”

Mae llygaid Sabrin yn lledu.

“Oherwydd bod pobl fel Elizabeth wedi credu bod dy lais di’n bwysig.”

“Dyna sut mae newid yn digwydd. Wyt ti’n cofio’r geiriau allweddol o’r cerflun?” gofynna Elizabeth.

Mae Sabrin yn nodio. “Yn gyntaf, daw undod. Pobl yn sefyll gyda’i gilydd dros achos.”

Mae Terry’n ymuno â Sabrin, gan roi ei law yn ei llaw hi. “Yna, callineb,” mae’n ychwaneg. “Meddwl yn ofalus, cynllunio a dewis yr amser cywir.”

Mae Elizabeth yn sgipio draw ac yn dal llaw arall Sabrin. “Ac egni. Dal ati, hyd yn oed pan mae’n anodd.”

“Dwi’n deall, nawr!” Mae Sabrin yn gwenu’n llawen. “Yn union fel y Siartwyr, gallwn ni newid pethau, hefyd.”



## FFEIL FFEITHIAU

Ar ôl Gwrthryfel y Siartwyr ym 1839, cafodd John Frost a dau arweinydd arall eu harestio a'u cyhuddo o deyrnfradwriaeth. Roedd honno'n drosedd ddifrifol dros ben, yr un cyhuddiad a ddefnyddiwyd ar gyfer pobl (fel Guy Fawkes!) a oedd yn ceisio dymchwel y llywodraeth. Roedd y gosb yn un greulon: cawsant eu dedfrydu i farwolaeth!

Ar ôl llawer o brotestiadau cyhoeddus, newidiwyd eu cosb o ddienyddio i gael eu hanfon yr holl ffordd i weithio mewn amgylchiadau llym yn Awstralia.

Bron i 18 mlynedd yn ddiweddarach, ym 1857, derbyniodd John Frost faddeuant llawn a chaniatawyd iddo ddychwelyd i Brydain. Bu fyw tan yn 93 oed a pharhaodd i gefnogi newid gwleidyddol am weddill ei oes.

**Gobeithiwn eich bod chi wedi mwynhau gorymdeithio trwy amser gyda Sabrin, Grancha Terry ac Elizabeth.**

Cyn i chi adael:

- Ewch yn ôl i unrhyw arosfannau yr hoffech dreulio rhagor o amser ynddynt
- Rhannwch ddyluniadau eich darnau arian
- Tynnwch lun o flaen eich hoff leoedd
- Ewch i'n gwefan i gael manylion Cyrchoedd Stori eraill yn Ne Cymru

A chofiwch ... does dim rhaid i chi fod yn oedolyn i wneud gwahaniaeth. Mae'r bennod nesaf mewn hanes yn dechrau gyda CHI.

**Fe welwn ni chi ar eich antur Cyrch Stori nesaf!**